

Ei ffyddlondeb

“Gwyn ei fydd y sawl na fydd yn cwmpo o’r hachos i.” (adn. 6)

Beth am ddarllen Mathew 11:1–15 ac yna myfyrio

Yr wyf wedi nodi fod cwrs bywyd yn cael ei benderfynu yn aml yn fwy ar sail ein hymateb na’n gweithredoedd. Mae bywyd yn dod heb inni ei wahodd, ac yn ein gorfodi i wynebu amgylchiadau heb ofyn inni am ganiatâd. Ar yr adegau hynny, mae ein hymateb yn cyfrif. Gallwch ymateb yn hunandosturiol, yn rhwystredig, a bydd y cyfan yn eich arwain at ddymuniad i osgoi realaeth, neu gallwch ymateb gyda hyder a dewrder. Os bydd i hyn ddigwydd, fe gyfoethogir eich profiad, fe ychwanegir at eich cymeriad.

Yn ôl Malcolm Muggeridge, un a ddaeth yn Gristion yn ddiweddar iawn mewn bywyd, fe ddaeth y camau brasaf yn ei fywyd mewn perthynas â thwf ei gymeriad nid yn ystod yr adegau o lawenydd ond yn ystod yr adegau hynny o ddiodefaint a brofodd. Wrth inni ddysgu sut i ddyfalbarhau trwy ddiodefaint, yna fe ychwanegir elfennau pwysig i’n cymeriad sydd yn harddu Efengyl Iesu Grist.

Wrth imi ddirwyn y sylwadau hyn i ben ar ddyfalbarhad, rhaid i mi gydnabod, pan oeddwn yn ifanc, fod y rhinwedd hwn yn brin iawn yn fy mywyd. Ond am dri deg ac wyth o flynyddoedd, rwyf wedi ysgrifennu y nodiadau dyddiol yma sy’n cael eu cyhoeddi bob dau fis heb doriad. Yn yr amser hwnnw, yr wyf wedi ysgrifennu tua phum miliwn o eiriau. Fe’m galwyd i ddyfalbarhau ar waethaf fy niogi naturiol. O ble y daw’r grym yma i ddyfalbarhau? Credaf, wrth i mi roi fy hunan i’r Arglwydd Iesu, felly y mae Iesu wedi rhoi ei hunan i mi a’r cynorthwyo i ddyfalbarhau. Yn ôl yr apostol Paul yn 1 Corinthiaid 1:8–9: “Bydd ef yn eich cadw’n gadarn hyd y diwedd, fel na bydd cyhuddiad yn eich erbyn yn Nydd ein Harglwydd Iesu Grist. Y mae Duw’n ffyddlon, a thrwyddo ef y’ch galwyd chwi i gymdeithas ei Fab ef, Iesu Grist ein Harglwydd ni.” Ei ffyddlondeb ef yw sail ein ffyddlondeb ni. Yr wyf yn ddyledwr i’w ffyddlondeb. Fe dybiaf eich bod chwithau yr un modd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 24:1–14; Ioan 6:61–69; 1 Pedr 5:1–9

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fu Iesu yn gymaint tramgwydd i bobl?
2. Pam na fu i Pedr gefnu ar Iesu?

Gweddi

O Dad, dysga fi i bwysu ar dy ras di. Cynorthwya fi, hyd yn oed pan fyddaf yn cael fy nigalonni, i beidio atal fy ngherddeddiad ar dy ôl. Yr wyf am dy wasanaethu. Cryfha fy ewyllys yn dy wasanaeth â’r nerth sydd yn dod trwy dy Fab a thrwy dy Ysbyrd Glân. Yn enw Iesu. Amen.